

Cynllun Aswariant Bywyd y GIG a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2020 - Cwestiynau Cyffredin Myfyrwyr

Cynllun Aswariant Bywyd y GIG a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2020: Aswariant Myfyrwyr

Os bydd myfyriwr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol yn ymgymryd â rôl gyflogedig a bod ganddo gontract cyflogaeth gyda chorff GIG neu ddarparwr gofal cymdeithasol, bydd yn gymwys o dan y cynllun yn yr un modd â staff cyflogedig eraill yn yr un rôl.

Gall myfyrwyr gofal iechyd cyflogedig hefyd fod yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn y GIG, sy'n rhoi buddion pellach o ran marwolaeth mewn gwasanaeth.

Myfyrwyr di-dâl

Mae rheolau'r cynllun yn nodi bod 'unigolion cymwys' yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol cyflogedig a gwirfoddolwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig. Nid yw myfyrwyr meddygol a lleoliadau gofal iechyd di-dâl yn perthyn i'r categorïau hyn o unigolion 'cymwys' yn awtomatig.

Fodd bynnag, mae'r cynllun hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru arfer disgrisiwn i gynnwys unigolion nad ydynt yn gymwys yn awtomatig. Gall hyn gynnwys myfyrwyr di-dâl ar leoliad nad ydynt yn gymwys yn awtomatig ond sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso sy'n weddill a nodir yn rheolau'r cynllun.

Ystyried achosion myfyrwyr di-dâl

Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i gynnwys staff (sy'n gymwys ac y tybir eu bod yn gymwys gan Weinidogion Cymru) sy'n darparu gofal neu driniaeth bersonol i bobl neu staff sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ac sydd wedi cael eu heintio gan y coronafeirws (COVID-19).

Er mwyn gwneud taliad i staff sy'n gymwys ac y 'tybir eu bod yn gymwys', rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod yr unigolyn, ar sail tystiolaeth, yn agored i risg uchel o gontractio'r coronafeirws mewn amgylchiadau lle na allai osgoi'r risg honno yn rhesymol yn rhinwedd natur a lleoliad y gwaith a wnaed ganddo.

Ni allwn warantu y bydd yr holl fyfyrwyr di-dâl yn bodloni'r gofynion hyn, gan y bydd angen ystyried pob achos yn unigol. Yn yr un modd, ni allwn roi'r sicrwydd hwn i weithwyr

cyflogedig y GIG a gofal cymdeithasol, gan fod yn rhaid iddynt hwythau fodloni'r meini prawf cymhwysedd.

Mae rhagor o wybodaeth am gymhwysedd ar gael ar [dudalennau gwe](#) Cynllun Aswiriant Bywyd y GIG a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2020.